Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MAWRTH, 7 MAI 2019**

**AT: YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD** A GYNHELIR YN **YSTAFELL GYFARFOD ADFYWIO, NEUADD Y SIR, CAERFYDDIN** AM **2.00 YP,** AR **DYDD LLUN, 13EG MAI, 2019** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Emma Bryer** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224029** |
| **E-bost:** | **ebryer@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **DATGANIADAU O FUDDIANT** | |
| 2. | **DIWYGIAD I'R DDYLETSWYDD GOFAL AR BRESWYLWYR** | 3 - 6 |
| 3. | **LLOFNODI BOD COFNOD PENDERYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED IONAWR, 2019 YN GOFNOD CYWIR** | 7 - 8 |


*Sylwer: -*
*Nid oes hawl gan y wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod.*
*Bydd y cofnod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith.*

# CYFARFOD PENDERGYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIOGELU'R CYHOEDD

## 13 MAI 2019

| Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol: | Portffolio: |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Philip Hughes** | **Diogelu'r Cyhoedd** |

## DIWYGIAD I'R DDYLETSWYDD GOFAL AR BRESWYLWYR

**Y Pwrpas:**

Galluogi Swyddogion Gorfodi Materion Amgylcheddol i gael y cyfle i roi hysbysiad cosb benodedig am drosedd yn ymwneud â'r ddyletswydd gofal ar breswylwyr yn lle mynd â'r troseddwr i'r llys.

**Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:**

Cymeradwyo'r gosb benodedig mewn perthynas â'r ddyletswydd gofal o ran gwastraff y cartref, sef £300, neu £150 os caiff y gosb ei thalu o fewn 10 diwrnod. Mae'r gallu i roi tocyn cosb benodedig yn ddiwygiad o dan Adran 34(2A) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Y Rhesymau:**

Mae'r Llywodraeth wedi gwneud darpariaethau i ddiwygio Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i gynnwys rhoi tocyn cosb benodedig fel ffordd o ymdrin â throsedd yn ymwneud â'r ddyletswydd gofal ar breswylwyr yn lle mynd â'r mater i'r llys.

Mae'r ddyletswydd gofal o ran gwastraff yn gofyn bod meddianwyr eiddo domestig yn cymryd yr holl gamau sydd ar gael iddynt, fel sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau, i sicrhau os ydynt yn trosglwyddo unrhyw wastraff y cartref a gynhyrchwyd yn eu heiddo, eu bod yn ei drosglwyddo i berson awdurdodedig.

Nod y gofyniad hwn yw lleihau'r siawns y bydd y gwastraff yn mynd i ddwylo'r rheiny a allai ei waredu'n anghyfreithlon.


| | | |
|---|---|---|
| **Y Gyfarwyddiaeth:**<br>Yr Amgylchedd | | **Rhifau ffôn: / Cyfeiriadau E-bost:** |
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth:**<br>Ainsley Williams | **Swydd:**<br>Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff | 01267 224500<br>AIWilliams@sirgar.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Paul Morris | Rheolwr Gorfodaeth Amgylcheddol | 01554 784164<br>PMorris@sirgar.gov.uk |

## Declaration of Personal Interest (if any):

**None**

## Dispensation Granted to Make Decision (if any):

**N/A**

## DECISION MADE:

**Signed:** ______________________________________________DATE:____________

EXECUTIVE BOARD MEMBER

**The following section will be completed by the Democratic Services Officer in attendance at the meeting**

| | |
|---|---|
| Recommendation of Officer adopted | YES |
| Recommendation of the Officer was adopted **subject to the amendment(s) and reason(s) specified:** | |
| Reason(s) why the Officer's recommendation was **not adopted**: | |



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

# EXECUTIVE SUMMARY

# EXECUTIVE BOARD MEMBER DECISION MEETING FOR PUBLIC PROTECTION

# 13TH MAY 2019

## AMENDMENT TO DUTY OF CARE TO HOUSEHOLDERS

The fixed penalty notice for breaches of the household waste of duty of care provides authorities with an alternative enforcement option to prosecuting offenders through the court. It allows an individual to discharge liability for the duty of care offence by payment of a fixed penalty ticket.

The offences of duty of care relate to householders who do not dispose of their waste correctly and does not apply where waste is collected by the principle waste authority which is in this case is Carmarthenshire County Council.

The FPN fines for a breach of householder duty of care is £300 and an early payment of £150 is offered if paid within 10 days. The amounts stated are fixed following recommendations from the Welsh Government to have a consistent approach across Wales.

A fixed penalty notice may be issued where it appears to authorised officers that an occupier of a domestic property has failed to comply with their duty under S34(2A) of the Environmental Protection Act in Wales. Examples of this include;

- Fly-tipping

  Where fly-tipped waste can be traced back to an occupier of a domestic property who is found to have failed to take such measures as were reasonable in the circumstances to ensure that they transferred the waste to an authorised person

- Unauthorised carrier

  Where an unauthorised carrier is found to be carrying waste that was directly transferred to them by the occupier of a domestic property who is found to have failed to take such measures are were reasonable in the circumstances to ensure that they transferred the waste to an authorised person.

- Failing to take reasonable measures

  Where an occupier of a domestic property is found to be transferring their waste to a site that does not have a permit or exemption, and the occupier is found to have failed to take such measures as were reasonable in the circumstances to ensure that the operator of the site in question was an authorised person.

Any action taken will be subject to the Corporate Enforcement Policy.

| DETAILED REPORT ATTACHED? | NO |
| --- | --- |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Ainsley Williams Head of Waste & Environmental Services**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Staffing implications | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **YES** | **YES** | **YES** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

**Legal**

Enforcement Officers have existing powers and authorised under S34(2A) of the Environmental Protection Act 1990.

**Finance**

Currently action through the courts results in fines and costs being awarded. Any fines issued are sent to the treasury and costs awarded are given back to the authority.

In the event of a breach of householder duty of care and a fixed penalty being issued the revenue is given back to the authority.

Any failure to pay the fixed penalty ticket will result in court proceedings and the outcome is as described above.

**ICT**

The back office systems are already in place to deal with other fixed penalty tickets and would require no change.

## CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Ainsley Williams Head of Waste & Environmental Services**

**1. Scrutiny Committee - N/A**

**2.Local Member(s) - N/A**

**3.Community / Town Council - N/A**

**4.Relevant Partners - N/A**

**5.Staff Side Representatives and other Organisations - N/A**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Guidance for Welsh Authorities on Household Waste Duty of Care fixed penalty notices | Welsh Government | https://www.gov.uk/government/publications/household-waste-duty-of-care-fixed-penalty-notice-guidance/guidance-for-local-authorities-on-household-waste-duty-of-care-fixed-penalty-notices |


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD

**18 IONAWR 2019**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd P.M. Hughes (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gyfarfod Adfwyio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 9:00am - 9:25am

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. Y DDEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi golwg gyffredinol ar y gweithgaredd cudd-wylio yr oedd yr Awdurdod wedi ymgymryd ag ef yn 2017/18, ynghyd â'r gweithdrefnau ysgrifenedig ynghylch y dull o gynnal cudd-wylio gan staff a defnyddio cudd-wylio o'r fath.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y canlynol:

- Gwyliadwriaeth dan Gyfarwyddyd
- Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol
- Rhyng-gipio Data Cyfathrebu
- Adroddiadau Ystadegol
- Hyfforddiant
- Gweithdrefnau'r Cyngor

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol nad oedd unrhyw awdurdodiadau wedi'u cyflwyno dan y Ddeddf hon ynghylch y dull o gynnal cudd-wylio o'r fath, ffynonellau cuddwybodaeth ddynol a rhyng-gipio data cyfathrebu rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Rhagfyr 2018.

Nododd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ei fod yn falch o gael dweud yr oedd 68 o aelodau staff y cyngor yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2018. Yn ogystal, roedd y cynadleddwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o'r prif dimau gorfodi rheoliadau, yn ogystal â gwasanaethau eraill gan gynnwys;

- Adnoddau Dynol
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion/Cartrefi Gofal/Gofal Cartref
- Cyllid/Cyfrifyddiaeth
- Archwilio Mewnol
- Gwasanaethau Plant

Yn ogystal, byddai nodiadau o'r hyfforddiant yn cael eu dosbarthu i'r holl staff perthnasol.

Cyfeiriwyd at Weithdrefnau Cuddwylio'r Cyngor, adran 5 - Y Broses Awdurdodi. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, fel y nodir yn y gweithdrefnau, pe byddai cais yn cael ei gymeradwyo, byddai'n rhaid i'r swyddog awdurdodi nodi'r canlynol:

- Cwmpas yr awdurdodiad
- Cyfnod yr awdurdodiad
- Y dyddiad (dim mwy na 28 diwrnod) ar gyfer adolygu'r awdurdodiad

Roedd Atodiad 1 o'r weithdrefn a nodwyd uchod yn rhoi rhestr o'r swyddogion awdurdodi o dan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol at ddibenion y Cyngor. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod 'Polisi Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol' y Cyngor ar gael i'r staff ar y fewnrwyd, a'i fod yn cynnwys adran ar Fonitro'r Cyfryngau Cymdeithasol a nodai: *'Os yw cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn mynd i gael ei ddefnyddio i weld neu fonitro cyfrif arall, mae'n rhaid gofalu peidio â chyflawni gweithgarwch cudd-wylio ar-lein. Mae'n rhaid i unrhyw fonitro o'r fath gael ei wneud yn unol â pholisi Cudd-wylio'r Cyngor a dylid ceisio cyngor ymlaen llaw gan y Gwasanaethau Cyfreithiol'* .

Fodd bynnag, yn ogystal â 'Pholisi Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol' y Cyngor, roedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol o'r farn y byddai'n ddoeth tynnu sylw staff at beryglon defnyddio eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol ar gyfer y diben hwn. Cytunodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i drafod y mater hwn ymhellach ag Adnoddau Dynol a rhoi gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fel sy'n briodol.

**PENDERFYNWYD:**

**2.1 nodi'r gweithgaredd cudd-wylio yr oedd y Cyngor wedi ymgymryd ag ef yn 2017/2018;**

**2.2 cymeradwyo'r newidiadau i'r weithdrefn gorfforaethol ar gyfer 2019 ynghylch cudd-wylio o'r fath.**

**3. COFNOD PENDERFYNIADAU - 12 EBRILL 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill, 2018 gan ei fod yn gywir.**

________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales